# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)02-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 20 Ionawr 2009

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Peter Black i'w gyfarfod cyntaf fel Rheolwr Busnes.

2.1 Hefyd croesawodd y Cadeirydd Angela Burns, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a oedd yn bresennol yn y cyfarfod i drafod y cais am slotiau cyllid wythnosol.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)01-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 13 Ionawr 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**Materion yn codi**

**Nodyn gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid - Amledd cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid - BC(3)02-09(p1)**

2.2 Yn ei gyfarfod diwethaf ar 9 Ionawr, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried y cais gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid am slotiau wythnosol. Roedd y Cadeirydd yn bresennol yn y cyfarfod i drafod y cais. Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am bapur arall yn amlinellu unrhyw faterion logistaidd mewn perthynas â'r slotiau wythnosol.

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)02-09(p2)**

3.1 Cyfeiriodd y Llywydd at y ddadl ar Gaza, a oedd wedi'i threfnu ar gyfer dydd Mercher. Dywedodd na fyddai'n dethol y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig.

3.2 Nododd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 20 a 21 Ionawr 2009.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)02-09(p3)**

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)01-09(p3)**

3.5 Dywedodd y Llywydd bod Cynnig heb Ddyddiad Trafod (NNDM) i ddirymu'r Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008 wedi'i gyflwyno. Nododd y Pwyllgor y byddai angen ystyried y cynnig i ddirymu o fewn 40 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei gyflwyno. Mewn perthynas â'r Offeryn Statudol penodol hwn, byddai'r terfyn amser 40 diwrnod hwnnw'n dod i ben ddydd Sadwrn 14 Chwefror. Felly byddai angen trefnu dadl cyn dydd Mercher 11 Chwefror. Cytunodd y Rheolwyr Busnes, mewn egwyddor, y byddai dadl yn cael ei threfnu cyn y dyddiad hwn.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitemau canlynol o fusnes heblaw busnes y Llywodraeth:

Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Fagiau Plastig (60 munud); a

Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Gam-drin Domestig (60 munud)

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Deddfwriaeth**

**Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 yn gofyn am ymestyn dyddiad cau Cyfnod 2 ar y Mesur arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) ac yn gofyn am gyfarfodydd ychwanegol y tu allan i'r slot pwyllgor a drefnwyd - BC(3)02-09(p5);" a"**

**Phapur gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth - BC(3)02-09(p5a)**

4.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r ceisiadau gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 i:

ymestyn dyddiad cau Cyfnod 2 o bythefnos, i 13 Chwefror; ac

i gael dau slot ychwanegol ar brynhawn dydd Iau 22 Ionawr a phrynhawn Iau 29 Ionawr 2009.

4.2 Nododd y Pwyllgor Busnes na fyddai ymestyn dyddiad cau Cyfnod 2 yn effeithio ar gymeradwyaeth y Mesur gan y Cyfrin Gyngor ym mis Mai.

**Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran Deddfwriaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru - Ionawr 2009 - BC(3)02-09(p6)**

4.3 Nododd y Pwyllgor Busnes y papur diweddaru ar Ddeddfwriaeth yn y Cynulliad.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**